
#DYLECH WNEUD HYN GARTRE
#13
Yn cynnwys: Marfin a Milo
Yr hyn sydd ei angen arnoch:
• Potel blastig ar gyfer diod • Dŵr
Hei Milo, hoffet ti weld sut mae swigod yn ymddwyn yn y gofod?
?
Llenwch y botel â dŵr nes ei bod bron iawn yn llawn.
Vic Le Billon
Caewch y caead yn dynn...
...a thaflwch y botel i'r awyr.
Gwyliwch y botel yn ofalus ar ei ffordd i fyny a'i ffordd i lawr. Wrth i'r botel ddisgyn, bydd yr aer sydd ynddi'n ffurfio swigen siâp sffêr!
Wrth i'r botel ddisgyn yn rhydd, mae'r tyniant arwyneb yn gwthio'r aer i mewn i swigen sydd â'r arwynebedd lleiaf posibl, sef sffêr. Yn y gofod, mae'r un effaith i'w gweld gyda diferion hylif yn yr aer.